# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## LWFANSAU CYNGHORWYR – YSTYRIED YR ADRODDIAD TERFYNOL

### Pwrpas

1. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried adroddiad Sefydliad Astudiaethau Llywodraeth Leol, Birmingham, "Recognising Councillors' Worth to their Communities"(**Atodiad 1**).

### Crynodeb

2. Mae'r papur yn cynnwys crynodeb gweithredol o'r adroddiad.

### Cefndir

3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Tachwedd, cefnogodd yr aelodau gynnig i gynnal ymchwiliad annibynnol a fyddai'n gwneud argymhellion ynghylch lwfansau cynghorwyr. Cyflwynwyd y cylch gorchwyl drafft i'r pwyllgor ym mis Ionawr. Mae'r cylch gorchwyl wedi'i gynnwys ym Mhennod Gyntaf yr adroddiad. Yn dilyn proses dendro, rhoddwyd cytundeb yr ymchwiliad i'r Sefydliad Astudiaethau Llywodraeth Leol (Inlogov) ac rydym bellach wedi derbyn adroddiad terfynol y tîm adolygu.

### Gweithredu

4. Gofynnir i'r Pwyllgor roi ei farn ar yr adroddiad.

### Cyswllt

5. Kate Cassidy, Moderneiddio Llywodraeth Leol, est 3609